O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L
C Y M R U

# 2011 Rhif 2610 (Cy. 283)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

# Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2011

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn diwygio Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992 (“Rheoliadau 1992”).

O dan Ran II o Atodlen 8 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, mae'n ofynnol i awdurdodau bilio (yng Nghymru, cynghorau sir a chynghorau bwrdeistref sirol) dalu symiau (a elwir yn gyfraniadau ardrethu annomestig) i Weinidogion Cymru. Mae Rheoliadau 1992 yn cynnwys rheolau ar gyfer cyfrifo'r cyfraniadau hynny ar gyfer awdurdodau bilio Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau 1992 drwy roi Atodlen 4 newydd (Ffigurau Poblogaeth Oedolion) yn lle'r un bresennol.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2011 Rhif 2610 (Cy. 283)

# ARDRETHU A PHRISIO, CYMRU

## Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2011

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *01 Tachwedd 2011* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru* | *02 Tachwedd 2011* |
| *Yn dod i rym* | *30 Tachwedd 2011* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 60, 140(4) a 143(1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 a pharagraffau 4 a 6 o Atodlen 8 iddi(**1**) ac sydd bellach wedi eu breinio ynddynt hwy(**2**).

**Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) (Diwygio) 2011 a deuant i rym ar 30 Tachwedd 2011.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

---

(**1**) 1988 p.41.

(**2**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adrannau 60, 140(4) a 143(1) a pharagraffau 4 a 6 o Atodlen 8, i'r graddau yr oeddent yn arferadwy mewn perthynas â Chymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672) - *gweler* y cyfeiriad at Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 yn Atodlen 1. Yn rhinwedd adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hynny'n arferadwy gan Weinidogion Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn ystyr “Rheoliadau 1992” (“*the 1992 Regulations*”) yw Rheoliadau Cyfraniadau Ardrethu Annomestig (Cymru) 1992(**1**).

**Diwygio Rheoliadau 1992**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau 1992 wedi eu diwygio fel a ganlyn mewn perthynas â blynyddoedd ariannol sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Ebrill 2012.

(2) Yn lle Atodlen 4 i Reoliadau 1992 rhodder yr Atodlen i'r Rheoliadau hyn.

*Carl Sargeant*

Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru

1 Tachwedd 2011

---

(**1**) O.S. 1992/3238, fel y'i diwygiwyd gan O.S. 1993/1505, 1993/3077, 1994/547, 1994/1742, 1994/3125, 1995/3235, 1996/619, 1996/3018, 1997/3003, 1998/2962, 1999/3439 (Cy.47), 2000/3382 (Cy.220), 2001/3910 (Cy.322), 2002/3054 (Cy.289), 2003/3211 (Cy.304), 2004/3232 (Cy.280), 2005/3345 (Cy.259), 2006/3347 (Cy.307), 2007/3343 (Cy.295), 2008/2929 (Cy.258), 2009/3147 (Cy. 274) a 2010/2889 (Cy.239).

YR ATODLEN Rheoliad 2

# “SCHEDULE 4

## ADULT POPULATION FIGURES

| **Billing authority area** | **Prescribed figure** |
|---|---|
| Blaenau Gwent | 54,004 |
| Bridgend | 105,929 |
| Caerphilly | 134,673 |
| Carmarthenshire | 143,689 |
| Cardiff | 272,304 |
| Ceredigion | 63,698 |
| Conwy | 89,004 |
| Denbighshire | 76,881 |
| Flintshire | 117,823 |
| Gwynedd | 95,280 |
| Isle of Anglesey | 54,571 |
| Merthyr Tydfil | 43,525 |
| Monmouthshire | 69,652 |
| Neath Port Talbot | 109,040 |
| Newport | 108,804 |
| Pembrokeshire | 92,272 |
| Powys | 105,181 |
| Rhondda Cynon Taf | 184,181 |
| Swansea | 187,410 |
| Torfaen | 70,994 |
| Vale of Glamorgan (The) | 97,332 |
| Wrexham | 105,385 |

”